**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol - yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru

Jason Thomas
Cyfarwyddwr, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru

08 Rhagfyr 2023

Annwyl Andrew

## Amgueddfa Cymru

Ysgrifennaf yn dilyn eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 29 Tachwedd 2023, ar ein gwaith craffu ar Amgueddfa Cymru. Diolch am eich presenoldeb.

Fel y trafodwyd, roedd gan y Pwyllgor gwestiynau pellach i'w gofyn ichi:

### 'Trefniadau galw i mewn' a gwersi eraill a ddysgwyd

- A yw Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhellion y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu gwneud yn ei Adroddiad er Budd y Cyhoedd ac, os felly, pa gamau y mae'n eu cymryd i'w rhoi ar waith a sicrhau nad yw'r materion yn Amgueddfa Cymru yn cael eu hailadrodd mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus?

### Adolygiad wedi'i deilwra

- Beth mae canfyddiadau Panel yr Adolygiad wedi'i Deilwra yn ei ddweud wrth Lywodraeth Cymru ynghylch a yw Amgueddfa Cymru yn parhau i fod yn addas i'r diben ac wedi'i llywodraethu'n dda? A yw'n briodol atebol ac a yw wedi rhoi'r sicrwydd gofynnol i Weinidogion a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu?

- A oedd canlyniad yr Adolygiad wedi'i Deilwra yn dweud unrhyw beth wrth Lywodraeth Cymru a'i thîm noddi nad oeddent yn ei wybod eisoes am Amgueddfa Cymru?

- Gwnaeth Panel yr Adolygiad wedi'i Deilwra 77 o argymhellion yn ei adroddiad terfynol, gan nodi yr awgrymwyd ei fod yn blaenoriaethu rhai o'r argymhellion mwy pellgyrhaeddol. A yw hyn yn rhywbeth y gofynnodd Llywodraeth Cymru amdano ac os felly, pam?

- Pa argymhellion y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried fel y rhai mwyaf hanfodol i Amgueddfa Cymru?

- Argymhellodd Panel yr Adolygiad wedi'i Deilwra y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid i Amgueddfa Cymru ar sail buddsoddi i arbed er mwyn rhoi ei hargymhellion ar waith. A yw wedi gwneud hyn ac os felly, a allwch roi manylion?

- Yn dilyn y cynllun peilot yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai holl adroddiadau'r Adolygiad wedi'i Deilwra yn cael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd mewn ymateb i argymhellion ac i rannu arfer da. O ystyried hyn, pam na chafodd adroddiad interim Panel yr Adolygiad wedi'i Deilwra ar lywodraethu corfforaethol yn Amgueddfa Cymru ei gyhoeddi na'i rannu â'r Pwyllgor hwn?

Nodwn eich bod wedi cytuno i fynd ar drywydd y pwyntiau a ganlyn yn ysgrifenedig:

- A yw'r holl argymhellion o'r Adolygiad wedi'i Deilwra o Lyfrgell Genedlaethol Cymru wedi'u rhoi ar waith a phryd y cawsant eu rhoi ar waith, yn y drefn honno?

- Sut y penderfynwyd ar y cyllid anghylchol o £750,000 i Lyfrgell Genedlaethol Cymru fel swm, ar gyfer beth y'i dyrannwyd, yn benodol, a pha ganlyniadau penodol a gyflawnodd?

- Pa bryderon, os o gwbl, a nodwyd yn adolygiad perfformiad cyn-Lywydd Amgueddfa Cymru?

- Pryd y bydd y fersiwn ddiwygiedig o Arian Cyhoeddus Cymru yn cael ei chyhoeddi a sut y bydd yn wahanol i'r iteriad blaenorol?

- A yw Llywodraeth Cymru wedi asesu a oes dyfarniadau ariannol wedi'u gwneud mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth sy'n cyfateb i swm y setliad perthnasol hwn, lle nad oedd elfen allweddol yr achos yn cynnwys honiadau o wahaniaethu rhywiol neu hiliol?

- Beth oedd cyfansoddiad y Panel Her a pha allbynnau a gynhyrchwyd ganddynt a oedd yn bwydo i'r Adolygiad wedi'i Deilwra?

- A yw'n arfer cyffredin i Lywodraeth Cymru gymryd rhan mewn cyfryngu pan fydd y parti arall yn pennu cyfryngwr penodol? A nododd cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru y byddai ond yn cymryd rhan mewn cyfryngu pe bai'n gallu dewis y cyfryngwr?

Diolch ymlaen llaw am fynd i'r afael â'r cwestiynau ychwanegol hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 12 Ionawr 2024.

Yn gywir

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus